Mae Mrs Evans, Mrs Williams a Mrs Scurlock yn gwella ac yn gobeithio dychwelyd ar ôl y gwyliau. Diolch o galon i bawb o'r staff sydd wedi bod yn ein cynorthwyo yn ystod eu habsenoldeb.

Fel cymuned, cydymdeimlwn â Chadeirydd ein Llywodraeth-wyr, Y Cynghorydd Arthur Thomas yn ei alar o golli ei wraig.

Llongyfarchiadau i'r disgybl-ion canlynol ar eu llwyddiant yng nghystadlaethau Eisted-dfod Sir yr Urdd:

Meilyr Howells - laf Unawd Pres dan 12.
Dawnsio gwerin dan 12 - laf
Dawnsio gwerin dan 10 - 2il
Nick Wilkins - laf Cerameg
Sara Lathwood - 3ydd Cerameg
Pob hwyl yn Rhuthun dros y Sulgwyn.

Roedd y Ras Hwyaid yn llwydd-iant ariannol a gwnaethom elw o thua £600. Gobeithiwn ddefnyddio'r arian i brynu offer cyfrifiadurol mwy modern ac i brynu dau beiriant A3000.

Mae'r timau bron â gorffen chwarae eu gemau i gyd am y tymor hwn. Cyrhaeddodd y tîm hoci y rownd derfynol ac maen nhw wedi dod yn ail yn y Gynghrair. Da iawn chi! Enillodd y tîm pêl-droed Adran 3 gan drechu tîm Tal-y-bont. Mae Bois Bro Dafydd (yr ail dîm) wedi mwynhau'r profiad ac yn gobeithio am well lwc y flwyddyn nesaf. Da iawn chi!

Daliwch ati i gasglu, os gwelwch yn dda - caniau aliwminiwm, papur arian, hen stampiau, a thocynnau petrol (i gael teledu i'r caban).

Byddwn yn paentio a phapuro'r cyntedd dydd Llun cyntaf y gwyliau am 9.00 a.m. Croesewir pob/unrhyw gymorth.